

## Datganiad o Sicrwydd y Bwrdd

### Dogfen Taliadau Cyfanwerthu 2023/24

Ystyriodd y Bwrdd y Tariffau Cyfanwerthu ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022. Nododd y Bwrdd y gofynion o ran gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac i'r Cyfarwyddwr Strategol a Rheoleiddio'n benodol. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gyflogwyd i ddarparu sicrwydd allanol bod systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i lunio'r wybodaeth a gyhoeddir am y taliadau cyfanwerthu'n gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Wedi cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd eithaf ein dealltwriaeth, bod y taliadau a nodir yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru 2023/24 yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni'n rhwym iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall.


Paratowyd y ddogfen hon, a'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol, gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a systemau rheoli priodol, ac fe'u paratowyd yn unol i'r safonau y gellid eu disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Gan ystyried y 'Rheolau ar gyfer Gynlluniau Taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ddiwethaf yn Hydref 2021, rydyn ni o'r farn bod ein taliadau'n gyson â'r gofynion hyn, o gymryd rheolau'r Cynllun Taliadau fel cyfanwaith.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r tariffau ar gwsmeriaid mewn eiddo cymwys, ac yn nodi taw lefel uchel y chwyddiant CPI(H) a gymhwysir i dariffau yn 2023/24 sydd wedi achosi'r cynnydd o 9.7% mewn taliadau ar gyfer safleoedd mesuredig annomestig, y cynnydd o 10.3% ar gyfer safleoedd anfesuredig annomestig, a 9.6-9.7% ar gyfer cwsmeriaid diwydiannol mawr. Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod strategaethau priodol yn bodoli ar gyfer cyfathrebu â'r cwsmeriaid hyn ac ymdrin â nhw.

Mae'r cwmni wedi gohebu ag adwerthwyr sy'n gweithredu o fewn yr ardal ac wedi cysylltu â CCWater mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Taliadau Cyfanwerthu.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2022, dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb i'r Codeirydd roi sêl bendith terfynol i Gynllun Taliadau 2023/24 (a'r wybodaeth ategol angenrheidiol), yn dilyn cyhoeddiad y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) ar 14 Rhagfyr 2022.



Alastair Lyons  
Codeirydd

Ar ran y Bwrdd  
19 Rhagfyr 2022